Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2018

Annwyl Dai

P-05-804 Mae angen cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwarae!!

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb ganlynol am y tro cyntaf ar 13 Mawrth:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu cyllid dynodedig blynyddol i roi cymorth ariannol i bob Awdurdod Lleol wrth gyflawni eu dyletswydd yn unol â'u hasesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae er mwyn osgoi cau darpariaethau chwarae agored megis RAY Ceredigion.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y ddeiseb, o ystyried ymchwiliad cyfredol eich Pwyllgor i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc. Gallai sylwadau pellach y deisebwyr, sydd ar gael trwy'r ddolen isod, fod yn arbennig o berthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb hon, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar gael ar wefan y Cynulliad:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21277

Rhowch wybod i ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth naill ai gan y Pwyllgor hwn, neu gan y deisebydd.

Yn gywir



David J Rowlands AC
Cadeirydd